E-gyhoeddi yn y Gymraeg

Adroddiad ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru

gan Uned Technolegau Iaith, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Delyth Prys, Gruffudd Prys, Dewi Bryn Jones a David Chan

Hydref 2011

Cynnwys

1. Cefndir
2. Diffinio e-lyfr
3. Y farchnad e-lyfrau ryngwladol
4. Y defnydd o e-lyfrau yng Nghymru
5. Dyfeisiau e-ddarllen pwrpasol
6. Dyfeisiau e-ddarllen amlbwrpas
7. Meddalwedd darllen e-lyfrau
8. Cynorthwyo'r diwydiant cyhoeddi
9. Y ffordd ymlaen

Atodiad: Holiadur Awst 2011

1. Cefndir

Nododd *Iaith Fyw Iaith Byw* fod *"*darllen, ysgrifennu, gwylio a gwrando ar yr holl gyfryngau yn yr iaith honno yn hollbwysig i'w ffyniant....Drwy ddefnyddio cyfryngau electronig a digidol....mae posibilrwydd cyrraedd mwy o ddarllenwyr. **Byddwn yn edrych ar y posibiliadau o ran sut y gall cyhoeddwyr deunyddiau Cymraeg elwa ar y dechnoleg e-lyfrau."** Mae Llywodraeth Cymru felly yn gweld cyhoeddi e-lyfrau fel rhan o'i strategaeth i hybu'r iaith Gymraeg a galluogi siaradwyr Cymraeg i fyw bywydau cyflawn drwyddi.

Er mwyn cynorthwyo i hybu'r farchnad e-lyfrau yng Nghymru, y mae'n fwriad gan Gyngor Llyfrau Cymru gynnig e-lyfrau i'r cyhoedd drwy ei gwefan Gwales, ac i annog llyfrwerthwyr sydd â gwefannau masnachol i wneud yr un fath. I'r diben hwn mae wedi pennu Gardners fel cyflenwr e-lyfrau ar ei gyfer. Bydd Gardners yn derbyn ffeiliau ar fformat EPUB gan y cyhoeddwyr ar gyfer eu cyhoeddi ar ffurf e-lyfrau, gan ddefnyddio system Adobe DRM i sicrhau fod hawliau digidol yn cael eu diogelu.

Gan fod rhai problemau technolegol arbennig yn ymwneud â chefnogi'r Gymraeg mewn fformatau e-lyfrau, comisiynodd y Cyngor Llyfrau yr Uned Technolegau Iaith yng Nghanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, i ysgrifennu'r adroddiad hwn, sydd yn cynnwys argymhellion ar gyfer datblygu a chefnogi e-lyfrau Cymraeg. Mewn dogfen ar wahân, a baratoir mewn cydweithrediad ag Adran Ddylunio'r Cyngor Llyfrau, cyhoeddir canllawiau technegol i gyhoeddwyr i'w cynorthwyo i greu ffeiliau EPUB.

2. Diffinio e-lyfr

Llyfr wedi'i gynhyrchu mewn fformat digidol yw e-lyfr. Fel llyfr papur, diben e-lyfr yw cyflwyno cynnwys i'r darllenydd, a hynny yn bennaf ar ffurf testun. Fel yn achos llyfr papur, gellir hefyd gynnwys delweddau o fewn e-lyfr, gyda thestun neu hyd yn oed heb destun (ond anghyffredin fyddai hynny). Mae'n wir y gall e-lyfrau gynnwys nodweddion ychwanegol sy'n hwyluso profiad y darllenydd (er enghraifft y gallu i neidio o'r mynegai i bennod benodol

gyda chlic), ond mân esblygiadau yw'r ychwanegiadau defnyddiol hyn. Nid ydynt yn peri gwahaniaeth sylfaenol rhwng y fformat papur a'r fformat digidol[1].

Mae e-lyfrau hefyd yn dilyn patrwm y llyfr traddodiadol drwy gyflwyno cynnwys y gyfrol fel cyfres o dudalennau dilynol sydd â threfn benodol iddynt. Cymharer hyn â gwefan, er enghraifft, sy'n gasgliad o ffeiliau cysylltiedig lle nad oes trefn benodol wedi'i ragnodi ar gyfer eu darllen.

Ar un olwg, felly, does dim llawer o wahaniaeth rhwng llyfr ac e-lyfr. Unwaith i gynnwys gael ei greu (boed yn nofel, cofiant, casgliad o gerddi neu ddeunydd ysgrifenedig arall), mae modd ei argraffu ar bapur yn y dull traddodiadol, neu ei gynhyrchu'n ddigidol i'w drosglwyddo i ddyfais ddarllen electronig. Mewn gwirionedd, mae modd i gyhoeddwyr werthu'r un llyfrau yn y ddau gyfrwng, a gall y cyfrwng electronig gynnig sianelau dosbarthu newydd, ychwanegol iddynt.

3. Y farchnad e-lyfrau ryngwladol

Bu cynnydd sydyn gwerthiant e-lyfrau ar draws y byd yn y ddwy neu dair blynedd ddiweddar yn ffenomenon ryfeddol[2]. Cynyddodd y farchnad e-lyfrau yn Unol Daleithiau America, marchnad sy'n aml yn arwain ar dueddiadau technolegol newydd, o 167% ym mis Mehefin 2011 yn unig[3]. Yn 2011, cyhoeddodd Amazon, un o'r gwerthwyr llyfrau mwyaf yn y byd, fod eu gwerthiant e-lyfrau am y tro cyntaf erioed, wedi bod yn fwy na'u gwerthiant o lyfrau print.

Mae'n farchnad lle mae'r dechnoleg yn parhau i ddatblygu o ran y fformatau ar gyfer digido'r cynnwys, y dulliau dosbarthu a'r modelau gwerthu, a hefyd o ran y teclynnau neu'r dyfeisiau

[1]Weithiau, defnyddir y term 'e-lyfr' i gyfeirio at feddalwedd amlgyfrwng sy'n cynnwys cymysgedd o sain, fideo a thestun wedi'u lapio mewn rhyngwyneb sy'n efelychu tudalennau llyfr. Gw. er enghraifft, y rhai a gyhoeddir yng nghyfres Nicia Cris gan Acen: http://www.acen.co.uk/cy/siop.html?page=shop.browse&category_id=40 . Fodd bynnag, yn y ddogfen hon, byddwn yn defnyddio'r term 'e-lyfr' i gyfeirio'n unig at lyfrau digidol sydd yn efelychiadau gweddol gaeth o gyfrwng y gyfrol bapur.

[2] Gw. ystadegau yn http://www.futurebook.net/content/charting-global-e-book-market-exclusive-data

[3] Dyfynnir o http://www.publishersweekly.com/pw/by-topic/industry-news/financial-reporting/article/48646-e-book-sales-jump-in-june-print-plunges.html

sy'n galluogi darllen y cynnwys digidol. O'r herwydd mae'r sefyllfa yn parhau yn un cymharol ansefydlog, gyda dulliau dosbarthu newydd a dyfeisiau darllen, neu e-ddarllenwyr newydd, yn dal i gael eu datblygu'n barhaus.

Mae modd darllen e-lyfrau ar nifer o ddyfeisiau gwahanol, gan gynnwys cyfrifiadur neu liniadur cyffredin, ffonau clyfar, a dyfeisiau amlbwrpas newydd ar ffurf tabled. Fodd bynnag, mae'n debyg mai un o'r rhesymau yn y cynnydd diweddar ym mhoblogrwydd e-lyfrau yw dyfodiad dyfeisiau e-ddarllen pwrpasol, neu e-ddarllenwyr, sy'n ei gwneud hi'n hawdd prynu e-lyfr, ei lwytho i lawr a'i ddarllen. Ceir darlun manwl o boblogrwydd cymharol gwahanol e-ddarllenwyr gan Lifehacker:



http://lifehacker.com/5826280/five-best-ebook-readers

Mae rhestr gynhwysfawr o wahanol e-ddarllenwyr pwrpasol ar gael ar wefan *mobileread*:

http://wiki.mobileread.com/wiki/E-book_Reader_Matrix

Er bod cynifer o fodelau e-ddarllen gwahanol ar gael, mae'n werth nodi mai rhan fach o'r farchnad sydd gan y mwyafrif ohonynt ar wahân i'r ddwy neu dair dyfais fwyaf poblogaidd[4].

4. Y defnydd o e-lyfrau yng Nghymru

Er mwyn deall sut y mae'r galw am e-lyfrau Cymraeg a'r defnydd o ddyfeisiau e-ddarllen yng Nghymru yn cymharu â'r sefyllfa ryngwladol, lluniwyd holiadur pwrpasol ar gyfer yr adroddiad hwn (gw. Atodiad) gan holi darllenwyr Cymraeg am eu defnydd o e-lyfrau a'u hagwedd tuag atynt.

Holwyd 100 o bobl yn yr arolwg, gan mwyaf yn stondin Cyngor Llyfrau Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam yn ystod mis Awst 2011. Yr oedd 83% am weld llyfrau Cymraeg yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn ogystal ag ar bapur:



Fodd bynnag, dim ond 30% oedd eisoes yn meddu ar declyn e-ddarllen:

[4]Dylid nodi y gall sawl fersiwn o ddyfais benodol fodoli. Er enghraifft, yn achos yr Amazon Kindle, y fersiwn gyfredol yw'r 4ydd cenhedlaeth o'r Kindle gwreiddiol, ac mae Amazon bellach yn gwerthu sawl model cyfredol gwahanol ochr yn ochr â'i gilydd.



gyda 40% arall yn debyg o brynu dyfais e-ddarllen yn y dyfodol, er y byddai 28% dim ond yn gwneud petai e-lyfrau Cymraeg ar gael i'w rhoi arnynt:



O holi'r 30% a oedd eisoes yn meddu ar ddarllenydd e-lyfrau pa declyn oedd ganddynt, cadarnhawyd y darlun rhyngwladol o oruchafiaeth y Kindle (14%), ond roedd dyfeisiau aml-bwrpas fel yr iPhone (11%), ffôn Android (6%), iPad (3%) rhyngddynt yn fwy poblogaidd:



Mae'r dyfeisiau sydd gan yr ymatebwyr yn dylanwadu ar y siopau e-lyfrau a ddefnyddir, gydag Amazon (cynhyrchwyr y Kindle) yn cael eu defnyddio gan 15 ohonynt, gwefannau llyfrwerthwyr unigol gan 5, iBooks gan 7, ffeiliau PDF gan 11, Llyfrgell Gwynedd gan 1, Project Gutenberg gan 1, ac Android Market gan 2:



Mae'r cyfanswm hwn yn uwch na'r 30% ddywedodd fod ganddynt declyn darllen e-lyfrau am gan nifer ohonynt fwy nag un e-ddarllenydd. Roedd gan un ymatebydd 4 dyfais wahanol, ac un arall

3 dyfais. Roedd gan 10 ymatebydd 2 ddyfais wahanol, a 5 allan o'r deg yn dweud mai Kindle oedd un o'r dyfeisiau hynny. Gall fod y nodwedd o feddu ar fwy nag un ddyfais, ac i ddisgwyl gallu trosglwyddo cynnwys rhwng y gwahanol ddyfeisiau hyn (gw. sylw h. isod), fod yn arwydd o duedd newydd a all wrthweithio tuedd rhai llyfrwerthwyr i glymu eu prynwyr wrth ddyfais e-ddarllen benodol.

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr roi unrhyw sylwadau a ddymunent ar ddiwedd yr holiadur, ac yn eu plith cafwyd y sylwadau canlynol:

i. Mae'n debyg mai dyma yw'r ffordd ymlaen – ac mae angen symud efo'r oes!

ii. Gwell gen i deimlo llyfr yn fy llaw!

iii. Dwi ddim yn sicr os mae e-lyfrau y ffordd ymlaen. Fel llyfrgellydd dwi'n poeni am yr effaith gaiff hwn ar ddarllen llyfrau cyffredin. Er hyn dwi'n treulio rhan fwyaf o'm amser gweithio ar gyfrifiaduron.

iv. Os ydy datblygu e-lyfrau yn hybu gwerthiant/faint sy'n darllen yn y Gymraeg – gorau oll.

v. Bydd declyn darllen e-lyfrau sy'n llefaru'r testun o fudd mawr i'n mam sy'n hanner dall.

vi. Hoffwn i ddarllen cylchgronau a phapurau ar y Kindle hefyd.

vii. Hoffwn weld e-lyfrau Cymraeg â geirfa Saesneg wedi'i chynnwys

viii. Mae'r gallu i rannu llyfr rhwng fy ngwahanol ddyfeisiau yn bwysig iawn i mi.

ix. Angen hwyluso dosbarthu e-lyfrau Cymraeg ar frys!

x. Llawer o lyfrau Cymraeg na fydd mae'n siŵr yn cael eu hailgyhoeddi – byddai mor braf gallu cael clasuron, golygiadau o waith barddonol etc ar e lyfr.

xi. Edrych mlaen at e-lyfrau ac e-gyhoeddiadau Cymraeg

xii. Byddai'n well gen i beidio defnyddio Amazon! Darllen llyfrau Saesneg yn unig ar y Kindle ar hyn o bryd. Ddim hyd yn oed yn ymwybodol pa ddarpariaethau sydd ar gael yn y Gymraeg.

xiii. Cofiwch am y deillion!

xiv. Unrhyw gyfrwng all hybu diddordeb a sgiliau plant yn y Gymraeg o gymorth bob amser – ymlaen â'r datblygiadau.

xv. Er bod gen i iphone dwi ddim yn prynu e-lyfrau.

xvi. Angen llyfrau plant hefyd.

xvii. Angen gweld llyfrau Cymraeg fel elyfrau.

Mae'r sylwadau hyn yn dangos cryn awydd am weld darpariaeth e-lyfrau Cymraeg, ynghyd â pheth petruster dealladwy am y dechnoleg newydd.

Mae yma hefyd rai syniadau gwerthfawr am bosibiliadau defnyddio'r dechnoleg newydd i ailgyhoeddi clasuron Cymraeg, potensial y dechnoleg i ddarparu llyfrau llafar ar gyfer pobl â nam ar eu golwg, galluogi cynnwys geirfa Saesneg i gynorthwyo dysgwyr, a'r pwysigrwydd o ddarparu e-lyfrau ar gyfer plant, ac nid oedolion yn unig.

5. Dyfeisiau e-ddarllen pwrpasol

Mae meddalwedd e-ddarllen yn rhan annatod o ddyfeisiau e-ddarllen pwrpasol megis y Kindle a'r Sony e-Reader, ond mae modd gosod meddalwedd darllen e-lyfrau ar ddyfeisiau megis cyfrifiaduron a ffonau clyfar i'w troi yn declynnau e-ddarllen. Mae dewis helaeth o feddalwedd e-ddarllen y mae modd ei gosod ar y dyfeisiau hynny. Bellach, daw nifer o'r dyfeisiau hyn â meddalwedd wedi'i gosod, ond fel arfer gall y defnyddiwr ddewis gosod meddalwedd gwahanol os yw'n dymuno.

Mae'r dyfeisiau pwrpasol sydd ar y farchnad yn amrywio o ran eu maint, a maint a chymhareb eu sgrin, ac mae'r genhedlaeth ddiweddaraf ohonynt wedi dechrau mabwysiadu technoleg y sgrin gyffwrdd yn hytrach na botymau ar gyfer eu defnyddio.

Mae'r mwyafrif o'r dyfeisiau pwrpasol hyn yn defnyddio sgrin 'e-inc' gan fod sawl mantais i sgrin o'r fath ar ddyfais ddarllen. Mae gan sgrin e-inc gydraniad uchel iawn sydd llawer yn uwch na'r hyn a geir ar sgrin cyfrifiadur, gyda llawer mwy o ddotiau llai yn cael eu defnyddio i greu pob llythyren unigol. Golyga hyn fod y testun ar sgrin e-lyfr yn ymddangos yn llawer mwy clir na'r hyn a geir ar fonitor LCD, ac yn debycach o ran profiad darllen i ddarllen llyfr papur. Mantais arall sgrin e-inc yw nad yw sgrin o'r fath yn gwneud defnydd trwm o fatri'r ddyfais. Defnyddir y batri wrth 'droi' tudalen yn hytrach na'i phweru'n barhaus, felly mesurir eu hoes yn ôl troadau tudalen. Gall sgrin e-inc nodweddiadol bara'n hwy na 3,000 o droadau tudalen. Er y cynildeb hyn o ran defnydd pŵer, mae sgrin e-inc yn llawer mwy llachar na sgriniau LCD cyfatebol. Mae hyn, ynghyd â natur ddi-sglein (yn hytrach na sgleiniog) y sgrin yn golygu ei bod hi'n llawer mwy addas ar gyfer darllen mewn golau cryf (ar y traeth, er enghraifft) na sgrin LCD.

Mae gan rai o'r modelau mwy blaengar y gallu i gysylltu â'r rhyngrwyd dros gysylltiad WiFi neu 3G er mwyn llwytho e-lyfrau i lawr o'r we. Yr arfer gyda modelau llai soffistigedig yw cysylltu'r ddyfais â chyfrifiadur gyda chebl a symud unrhyw e-lyfrau a lwythwyd i lawr i'r cyfrifiadur o'r cyfrifiadur draw i'r ddyfais.

Mae gan sgriniau e-inc rai anfanteision. Ni all sgrin e-inc ddangos delweddau symudol yn llwyddiannus, ac felly mae dyfais sy'n defnyddio sgrin o'r fath yn anaddas ar gyfer dyfeisiau amlbwrpas sydd hefyd wedi'u bwriadu ar gyfer dangos fideos, chwarae gemau ac yn y blaen. Anfantais arall yw nad oes dyfeisiau e-inc lliw eto ar gael am bris rhesymol, er fod eu pris yn debyg o ostwng yn y dyfodol. Nid yw'r sgriniau e-inc lliw hynny yn llwyddo i gyfleu cryfder lliwiau yn ddigonol ar hyn o bryd, chwaith. Fodd bynnag, mae hwn yn faes lle mae'r dechnoleg yn symud yn gyflym, ac mae'n anodd rhagweld rhai o'r datblygiadau a all gael eu cyflwyno hyd yn oed yn y tymor cymharol fyr.

Gellir gweld enghraifft o ddyfais arfaethedig gyda sgrin liw ar:
http://www.engadget.com/photos/hanvon-e920-color-e-reader-hands-on/#3765207

6. Dyfeisiau e-ddarllen amlbwrpas

Dyfeisiau aml-bwrpas yw teclynnau sydd wedi'u cynllunio i wneud mwy na dangos e-lyfrau. Mae'r dyfeisiau hyn yn cynnwys ffonau clyfar fel yr iPhone a'r ffonau niferus sy'n rhedeg system weithredu Android, tabledi fel yr iPad a'r Samsung Galaxy Tab, heb anghofio am liniaduron a chyfrifiaduron traddodiadol sy'n rhedeg Windows, OS X neu fersiwn o Linux. Mae'n werth nodi bod modd prynu ffôn clyfar Android ar gontract talu wrth fynd am llai na £30, a gosod meddalwedd e-ddarllen arno. Golyga hyn fod dyfeisiau e-ddarllen o fewn cyrraedd pawb sy'n prynu llyfrau.

Nid oes gan y dyfeisiau hyn sgrin e-inc. Yn hytrach, maent gan fwyaf yn defnyddio LCD lliw llawn sydd fel arfer hefyd yn sgrin gyffwrdd fel y gall y defnyddiwr reoli'r yn sydd ar y sgrin gyda'i fysedd. Mae amrywiaeth helaeth o feintiau a chydrannau sgrin, hyd yn oed o fewn un dosbarth o ffôn (mae cydraniad yr iPhone 4 yn uwch na'r iPhone 3, er enghraifft, a daw'r fonau sy'n rhedeg Android mewn sawl siâp a chymhareb sgrin).

Fel rhai o'r dyfeisiau e-ddarllen pwrpasol, mae gan y mwyafrif o ddyfeisiau amlbwrpas bellach gyswllt a'r we trwy Wifi, 3G ac/neu gebl rhwydwaith, a felly mynediad uniongyrchol at siopau ar-lein sy'n gwerthu e-lyfrau.

Oherwydd natur amlgyfrwng dyfeisiau amlbwrpas hyn, gall e-lyfrau sydd wedi'u gosod arnynt ddefnyddio dolenni sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at gynnwys amlgyfrwng sydd ar gael ar y we, o eiriaduron ar-lein i ffeiliau sain neu fideos o gyfweliadau gydag awdur y llyfr ar wefan fel YouTube.

Dyma dabl sy'n rhestru gwahanol ddyfeisiau a'r systemau gweithredu y maent yn rhedeg arnynt:

Dyfais	**Math**	**OS**	**Sgrin Gyffwrdd**
iPhone	Ffôn Clyfar	iOS	Y
Ffonau Android	Ffôn Clyfar	Android	N
Ffonau Windows	Ffôn Clyfar	Windows	
Ffonau Nokia	Ffôn Clyfar	Symbian*	
iPad	Tabled	iOS	Y
Tabledi Android	Tabled	Android**	Y
Cyfrifiadur	PC	Win/OS X/Linux***	N
Gliniadur	PC	Win/OS X/Linux***	N

*Mae Nokia bellach wedi arwyddo contract a fydd yn eu gweld yn cefnu ar Symbian ac yn datblygu ar blatfform Windows Phone cwmni Microsoft.

**Mae sawl fersiwn o Android yn bodoli bellach, ac mae'r Kindle Fire yn seiliedig ar fforch Amazon o Android.

***Gellir gosod meddalwedd Calibre, er enghraifft, ar gyfrifiadur sy'n rhedeg Windows, Mac OS X neu Linux.

Yn wahanol i ddyfeisiau pwrpasol, mae'r hyblygrwydd sydd gan ddyfeisiau amlbwrpas i ddewis o blith nifer o raglenni meddalwedd gwahanol yn golygu eu bod yn llai tebygol o gael eu clymu i un fformat e-lyfr penodol. Gellir gosod mwy nag un meddalwedd e-ddarllen ar ddyfais, ac mae modd gosod yr un llyfr ar fwy nag un ddyfais hefyd.

Wrth gynhyrchu e-lyfrau ar gyfer y farchnad, mae hi'n bwysig profi'r e-lyfrau hynny ar gynifer o ddyfeisiau a chan ddefnyddio cynifer o raglenni meddalwedd e-ddarllen ag y bo modd er mwyn sicrhau y cânt eu dangos yn gywir er gwaetha'r mân amrywiadau o ddyfais i ddyfais a rhaglen i raglen.

7. Meddalwedd darllen e-lyfrau

Mae dewis o raglenni meddalwedd darllen e-lyfr gwahanol ar gael ar gyfer y mwyafrif o ddyfeisiau amlbwrpas. Golyga hyn fod y defnyddiwr yn rhydd i ddewis defnyddio y rhaglen sydd orau ganddo ef neu hi. Serch hynny, os daw dyfais gyda meddalwedd darllen e-lyfrau eisoes wedi'i gosod arni (fel y daw'r inPhone gydag iBooks arno) mae'n debyg y bydd carfan o ddefnyddwyr na fydd yn trafferthu i osod meddalwedd wahanol, neu na fydd yn deall digon ar y dechnoleg i wneud hynny heb anogaeth a chymorth.

Mae'r mwyafrif o'r rhaglenni meddalwedd darllen e-lyfr hyn ar gael am ddim. Fel arfer, gobaith eu datblygwyr yw gwneud eu harian trwy gyfeirio defnyddwyr i'w siopau e-lyfr hwy ac elwa ar ran o'r arian o werthiant yr e-lyfrau yn y siop honno.

Dyma restr o feddalwedd e-ddarllen boblogaidd:

Adobe Digital Editions (PC ac OS X)
Kindle
Kobo
Aldiko
Stanza
iBooks
Calibre

Oherwydd natur y gwahanol fformatau a'r defnydd o feddalwedd rheoli hawliau digidol, nid oes un rhaglen e-ddarllen sy'n gallu agor pob math o e-lyfr.

Ceir gwybodaeth am y fformatau a gefnogir yn y rhestr gynhwysfawr o feddalwedd e-ddarllen sydd i'w gael yma:

http://wiki.mobileread.com/wiki/E-book_software

8. Cynorthwyo'r diwydiant cyhoeddi

Mae paratoi testunau ar gyfer eu cyhoeddi fel e-lyfrau yn gosod gofynion newydd ar y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Er nad yw'r dechnoleg ynddi'i hun yn ddrud (h.y. nid oes angen offer newydd ar gyhoeddwyr os ydynt yn meddu ar gyfrifiadur a meddalwedd cyfoes) eto i gyd mae angen gwybodaeth a dealltwriaeth dechnolegol wahanol i'r hyn a ddefnyddir wrth gynhyrchu cyfrolau print. Am fod y llwyfannau a'r safonau yn amrywio ac yn dal i ddatblygu, nid mater hawdd yw cael hyd i un patrwm trosi sy'n mynd i weithio ym mhob achos. Hyd yn oed pan fydd meddalwedd yn honni ei bod yn dilyn y safon, gall fod ei dehongliad o ambell nodwedd yn y safon beri problem, a gall anawsterau godi rhwng gwahanol fersiynau o'r un feddalwedd.

Mae gofynion penodol y Gymraeg, gan gynnwys hollti geiriau yn y mannau cywir er mwyn cysylltnodi, a delio'n gywir ag acenion a nodau arbennig (yn arbennig ŵ ac ŷ) yn faterion pellach i'w hystyried wrth gynnig cefnogaeth i gyhoeddwyr Cymru. Mae dewis fformat EPUB felly, a chanolbwyntio ar hwnnw i ddechrau, yn symleiddio pethau. Dylid nodi fodd bynnag fod newidiadau yn bodoli rhwng gwahanol fersiynau o EPUB, a rhwng sut mae gwahanol becynnau meddalwedd a dyfeisiau yn ei ddehongli.

Er mwyn cynorthwyo'r diwydiant felly, cyhoeddir canllawiau hylaw ar wahân i'r adroddiad hwn i gynorthwyo cyhoeddwyr i drin ffeiliau cynnwys a'u paratoi ar gyfer e-gyhoeddi ar ffurf EPUB. I gyd-fynd â hyn, argymhellir hefyd fod rhaglen hyfforddi defnyddio EPUB ar gyfer

cyhoeddwyr yn cael ei sefydlu. Eisoes canfuwyd ffynhonnell nawdd debygol ar gyfer hyn yn rhaglen Sgiliau yn y Gweithle Llywodraeth Cymru a'r ESF.

Yr argymhelliad arall, o gael hyd i ffynhonnell grant addas, yw fod rhaglen bwrpasol yn cael ei chreu i hwyluso cyhoeddi yn Gymraeg o fewn EPUB. Gellid gwneud hyn mewn cydweithrediad â'r Cyngor Llyfrau, i'w gosod ar wefan rhad ac am ddim i gyhoeddwyr llyfrau ei defnyddio, ar batrwm Cysill ar-lein. Byddai hyn yn galluogi llwytho testunau llyfrau i fyny ar ffurf ffeiliau Word, llenwi ffurflen i gynnwys y metadata yn y ffurf briodol, a derbyn adroddiad ar y gwallau posibl sydd yn y testun, gan dderbyn yn ôl allforiad o'r testun ar ffurf EPUB addas i'w gyhoeddi fel e-lyfr.

9. Y ffordd ymlaen

Mae'n amlwg o'r arolygon rhyngwladol a chanlyniadau'r holiadur yng Nghymru fod e-lyfrau yn cynyddu'n gyflym yn eu poblogrwydd. Mae cynnig darpariaeth e-lyfrau deilwng yn y Gymraeg felly yn fater brys, nid yn unig er mwyn rhoi'r un cyfleoedd cyfartal ymarferol i ddarllenwyr Cymraeg ag i ddarllenwyr Saesneg, ond hefyd er mwyn cryfhau delwedd y Gymraeg fel iaith ddeniadol, gyfoes.

Am fod hwn yn faes sy'n datblygu'n gyflym, nid yw'r dechnoleg na'r modelau gwerthu a dosbarthu wedi sefydlogi eto. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n bwysig ceisio darparu ar gyfer cynifer o declynnau e-ddarllen a chyfleoedd gwerthu a dosbarthu ag y mae modd, yn hytrach na chyfyngu'r ddarpariaeth i un ddyfais yn unig. Mae goruchafiaeth 'gerddi caeedig' fel Kindle Amazon, yn ei gwneud hi'n anodd i'r farchnad lyfrau Cymraeg gystadlu ar dir cyfartal, ond mae fformat agored EPUB a pharodrwydd i ddosbarthu e-lyfrau Cymraeg drwy nifer o sianeli gwahanol (gwefan y Cyngor Llyfrau, gwefannau llyfrwerthwyr unigol, gwefannau gwerthwyr rhyngwladol mawr) yn golygu y bydd gan y darllenwr Cymraeg nifer o ddewisiadau i'w ddenu i ddarllen mwy o Gymraeg.

Gall cyfleoedd newydd godi i'r farchnad Gymraeg drwy ehangu'r farchnad e-lyfrau. Mae hunan-gyhoeddi yn dod yn ddeniadol i rai, gan dorri allan y cyhoeddwr masnachol. Fodd

bynnag mae cyhoeddwyr llyfrau Cymraeg yn cynnig gwasanaethau golygu, prawf-ddarllen a marchnata i'w hawduron, yn ogystal ag argraffu llyfrau papur. Gall y gwasanaethau hyn fagu pwysigrwydd ychwanegol wrth i'r farchnad e-lyfrau ddatblygu, gan alluogi mwy o lyfrau i gael eu cyhoeddi o bosibl, wrth i ystyriaethau costau argraffu fynd yn llai pwysig.

Pwnc arall sy'n werth ei ystyried yw e-gyhoeddi hen lyfrau allan o brint (gw. sylw ymatebydd yn 3.x uchod). Mae hen lyfrau allan o hawlfraint sy'n cael eu dosbarthu am ddim ar rai o'r dyfeisiau e-ddarllen yn boblogaidd iawn yn Saesneg. Byddai darpariaeth o'r fath yn ddeniadol i ddarllenwyr e-lyfrau Cymraeg, a byddai sefydlu cynllun felly, o bosib ar y cyd gyda'r Llyfrgell Genedlaethol ac mewn partneriaeth gyda'u rhaglen ddigido hwy, yn denu darllenwyr i ymweld, er enghraifft, â gwefan Gwales, pe gosodid yr e-lyfrau am ddim yno ochr yn ochr â llyfrau modern ar werth.

Mae gan gyhoeddwyr hefyd lyfrau sy'n dal o fewn hawlfraint ond sydd allan o brint. Yn aml iawn mae costau argraffu yn milwrio yn erbyn ailgyhoeddi'r rhain, ond unwaith eto byddai eu cyhoeddi ar ffurf e-lyfrau yn denu darllenwyr newydd ac yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr. Mae nifer o glasuron ymhlith y llyfrau hyn, a'r llyfrau sydd allan o hawlfraint, a byddai eu cyhoeddi ar ffurf e-lyfrau yn wasanaeth gwerthfawr a deniadol i lawer.

Mae hygyrchedd i bobl gyda nam ar eu golwg yn ystyriaeth ychwanegol, unwaith eto yn cael sylw yn yr ymatebion i'r holiadur. Ni aethpwyd i fanylu ar dechnoleg testun i leferydd yn yr adroddiad hwn, ond y mae Prifysgol Bangor wedi datblygu'r dechnoleg hon ar gyfer y Gymraeg, ac mae ar gael yn awr gan nifer o werthwyr masnachol i'w hymgorffori mewn e-lyfrau, ynghyd â geiriaduron i ddysgwyr, ac adnoddau tebyg i gyfoethogi'r profiad o e-ddarllen Cymraeg i gynulleidfa ehangach.

Mae'n bwysig felly ystyried dyfodiad e-lyfrau fel cyfle euraid i ehangu arlwy darllen yn Gymraeg, ac nid fel bygythiad. Mae cynnig gwasanaeth a chyngor technegol i gyhoeddwyr i baratoi llyfrau Cymraeg yn gywir ar gyfer e-gyhoeddi yn flaenoriaeth bwysig ac amserol.

Atodiad: Holiadur Awst 2011

Holiadur e-lyfrau Cymraeg

Mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi comisiynu Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr, i ysgrifennu adroddiad ar gyhoeddi e-lyfrau Cymraeg. A wnewch chi ein cynorthwyo drwy ateb yr ychydig gwestiynau isod? Diolch!

1. A hoffech chi weld llyfrau Cymraeg yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn ogystal ag ar bapur?

☐ Hoffwn ☐ Na Hoffwn ☐ Dim barn

---

2. A oes gennych chi declyn darllen e-lyfrau ar hyn o bryd? (Os nad oes, ewch yn syth i gwestiwn 5).

☐ Oes ☐ Nac oes

---

3. Os oes, pa un ydyw?

☐ Kindle ☐ Sony e-Reader ☐ iPad ☐ iPhone
☐ ffôn Android ☐ PC tabled ☐ Arall (nodwch beth) .....

---

4. Os ydych chi'n prynu e-lyfrau, pa siopau/meddalwedd fyddwch chi'n eu defnyddio (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

☐ gwefannau llyfrwerthwyr unigol ☐ Kindle Amazon ☐ iBooks
☐ ffeiliau PDF ☐ Arall (nodwch beth) .....

---

5. Os nad oes gennych declyn darllen e-lyfrau, a ydych yn debyg o brynu teclyn o'r fath yn y dyfodol?

☐ Ydw yn bendant ☐ Ydw, os bydd llyfrau Cymraeg ar gael ar ei gyfer
☐ Ddim yn debygol

---

6. Unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud

.....